# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Ar-lein**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 3 Rhagfyr 2024

Amser: 09.01 - 09.34

# O bell / Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Y Gwir Anrh. Elin Jones AS (Cadeirydd)<br>Heledd Fychan AS<br>Jane Hutt AS<br>Darren Millar AS |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Yan Thomas (Dirprwy Glerc) |
| Eraill a oedd yn bresennol: | David Rees AS, y Dirprwy Lywydd<br>Jane Dodds AS<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc<br>Mathew Richards, Cyfarwyddwr Dros Dro Busnes y Senedd<br>Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gweithdrefnau a Sgiliau Seneddol<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

| | |
|---|---|
| | Helen Finlayson, Clerc ar gyfer Adolygiad Gweithdrefnol Deddfwriaethol |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

## 2 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newid a ganlyn i Fusnes yr Wythnos Hon:

- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni (~~45~~ 30 munud)

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel yr eitem olaf o fusnes.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 6.35pm

Nododd Heledd Fychan ei bod yn debygol y bydd diddordeb sylweddol gan yr Aelodau yn y datganiad heddiw gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai ar y *Datganiad sefyllfa canol trefi*.

**Dydd Mercher**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.10pm

### 3.2 Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Trefnydd nad oes unrhyw newidiadau i amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

Gofynnodd Jane Dodds a fyddai datganiad llafar ar y Cynllun Lles Anifeiliaid yn cael ei drefnu cyn y toriad, yng ngoleuni ymrwymiad blaenorol a wnaed. Dywedodd y Trefnydd y byddai'n ystyried y cais.

### 3.3 Busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunwyd ar y newidiadau a ganlyn i amserlen Busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mercher 11 Rhagfyr 2024**

- Cynnig o dan Reol Sefydlog 16.3 i addasu cylch gwaith y Pwyllgor Biliau Diwygio (5 munud)

**Dydd Mercher 15 Ionawr 2025 –**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai: Y sector rhentu preifat (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl fer (30 munud)

### 3.4 Cais i amserlennu dadl ar Gynnig Heb Ddyddiad Trafod 8755

Trafododd y Pwyllgor Busnes gais gan Sioned Williams i amser gael ei roi i gynnal dadl ar Gynnig Heb Ddyddiad Trafod 8755 ynghylch y gwrthdaro yn Israel a Gaza.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gynnal trafodaethau pellach rhwng pleidiau gyda'r bwriad o amserlennu dadl ar y mater hwn ar sail drawsbleidiol yn y dyfodol agos.

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Ymateb gan Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd, a Seilwaith ynghylch y Bil Hen Glofeydd a Thomennydd Chwareli (Cymru)

Trafododd y Pwyllgor Busnes ymateb gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a chytunodd ar yr amserlen arfaethedig ar gyfer craffu ar y Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru).

### 4.8 Diweddariad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol

Trafododd y Pwyllgor Busnes bapur diweddaru ar y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol a chytunodd i:

- gyfeirio'r Memorandwm atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Dŵr (Mesurau Arbennig) at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i graffu arno, gyda dyddiad terfynol o 10 Ionawr 2025 i gyflwyno adroddiad; ac
- ymestyn terfynau amser y Memoranda sy'n ymwneud â'r Bil Iechyd Meddwl a'r Bil Tybaco a Fêps hyd at 21 Chwefror 2025.

## 5 Pwyllgorau

### 5.1 Craffu gan y Pwyllgor ar Orchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth Pobl) 2025

Trafododd y Pwyllgor Busnes gynnig ar gyfer hwyluso gwaith craffu pwyllgorau ar ferswin ddrafft Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025 a chytunodd i:

- nodi dull arfaethedig y Pwyllgor Biliau Diwygio o ymgysylltu â'r cyhoedd ynghylch y Gorchymyn drafft;
- cynnig gylch gwaith newydd i'r Senedd ar gyfer y Pwyllgor Biliau Diwygio i'w alluogi i ymgymryd â'r gwaith hwnnw;
- adolygu aelodaeth y Pwyllgor Biliau Diwygio gan gyfeirio'n benodol at yr Aelod a enwebwyd gan y Grŵp Llafur; a

- nodi cynigion ar gyfer amserlennu cyfarfodydd y Pwyllgor Biliau Diwygio.

### 5.2 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ynghylch cyfarfod Fforwm y Pwyllgor Cyllid Rhyngseneddol

Trafododd y Pwyllgor Busnes gais i aelodau'r Pwyllgor Cyllid deithio i Belfast ddydd Mawrth 18 Mawrth 2025 i fod yn bresennol mewn cyfarfod o Fforwm y Pwyllgorau Cyllid Rhyngseneddol ac, yn amodol ar drefniadau teithio, i'w hesgusodi o'r Cyfarfod Llawn ar 18 a 19 Mawrth, a chytunodd iddo.

## 6 Gwaith Gweithdrefnol

### 6.1 Adolygiad o'r prosesau craffu deddfwriaethol ar gyfer Biliau Cyhoeddus a Biliau Aelodau: cwmpasu cychwynnol

Ystyriodd y Pwyllgor Busnes bapur cwmpasu cychwynnol yn cynnwys cwmpas, dull ac amserlenni arfaethedig ar gyfer adolygu prosesau Biliau Cyhoeddus a Biliau Aelodau.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes ar y cynigion (yn amodol ar fân newidiadau) a gwnaethant gais am wybodaeth gefndirol o ran trefniadau mewn seneddau eraill ar gyfer Memoranda Esboniadol a Biliau Aelodau.

### 6.2 Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor y Senedd yn y Dyfodol ynghylch adolygiadau gweithdrefnol o brosesau Bil cyhoeddus a Biliau Aelodau

Nododd y Pwyllgor Busnes y llythyr a chytunodd y bydd yn ymateb i rannu manylion ei ddull, ei amserlenni a'i fwriadau ar gyfer yr adolygiadau deddfwriaethol, gan gynnwys cyfleoedd i'r Aelodau gyfrannu.